


# Dogfen Ymgynghori

## am y Cam Arfaethedig o Ehangu Ysgol Gwaun y Nant

### Llys Amroth, Clos Caldy, Y Barri

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Ymgynghoriad yng Nghyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU

www.bromorgannwg.gov.uk





## 1.0 Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

Rhaid i'r cyngor sicrhau bod digon o leoedd mewn ysgolion er mwyn bodloni galw rhieni. Mae gan y cyngor ddyletswydd i adolygu nifer a math yr ysgolion yn yr ardal, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau er mwyn codi safonau mewn ysgolion.

Os na chaiff unrhyw gamau eu cymryd, bydd y galw cynyddol am addysg Cyfrwng Cymraeg yn Y Barri yn arwain at brinder lleoedd mewn ysgolion o fis Medi 2014. Mae'r ymgynghoriad hwn yn esbonio'r dewis a ffafrir gan y Cyngor er mwyn darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Y Barri.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'n gyfle i bobl ddysgu am y cynnig ac i'r Cyngor glywed safbwyntiau'r holl rai y mae ganddynt ddiddordeb ynddo, fel bod modd iddynt gael eu hystyried pan wneir penderfyniadau.

## 1.1 Y broses ymgynghori

Rhaid i'r Cyngor ymgynghori ynghylch cynigion sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion pan fyddant yn eu cyfnod anffurfiol, cyn y cyhoeddir cynigion ffurfiol. Gofynnir am safbwyntiau amrediad o unigolion a grwpiau ynghylch y cynnig, gan gynnwys:

| | |
|---|---|
| Staff (addysgu a staff nad ydynt yn staff addysgu) Ysgol Gwaun Y Nant | Llywodraethwyr a Rhieni / Gofalwyr plant yn Ysgol Gwaun Y Nant |
| Partneriaeth Plant Bro Morgannwg | Partneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Bro Morgannwg (EYDCP) |
| Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf | Cynghorwyr Cymuned / Cyngor Tref Y Barri |
| Cynghorwyr Lleol | Aelod Cynulliad (AC) / Aelod Seneddol (AS) / Aelod Cynulliad Rhanbarthol |
| Comisiynydd y Gymraeg | RHAG |
| Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NAT) | Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) |
| Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr (ATL) | Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) |
| Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) | Cymdeithas Broffesiynol yr Athrawon (PAT) |
| UNSAIN | Undeb GMB |
| Ysgolion Cynradd ac Uwchradd cyfagos ym Mro Morgannwg | TUndeb y Gweithwyr Cludiant a Chyffredinol (T&G) |
| ERW – Addysg trwy Weithio Rhanbarthol | Cyfarwyddwr Addysg – Pob Awdurdod Cyfagos |
| Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol | Bwrdd Gwasanaethau Lleol |

| | |
|---|---|
| LComisiynydd yr Heddlu a Throseddu Lleol | Gwasanaeth Addysg ar y Cyd |
| Estyn | Gweinidogion Cymru |
| Gwasanaeth Gwella Disgyblion/ADY ALI | Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol |

## 1.2 Ymgynghori gyda disgyblion

Bydd cyfle i ddisgyblion Ysgol Gwaun Y Nant i gymryd rhan yn y broses ymgynghori yn ystod sesiwn a gynhelir yn yr ysgol gyda'r cyngor ysgol. Bydd y wybodaeth a gesglir yn ystod yr ymgynghoriad gyda'r disgyblion yn rhan o adroddiad yr ymgynghoriad, a gyflwynir i Gabinet y Cyngor i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

## 1.3 Sut mae modd i chi gael gwybod mwy a mynegi eich barn?

Yn ogystal â'r ddogfen ymgynghori hon, trefnwyd sesiwn galw heibio lle y cynigir esboniad o'r cynnig. Cynhelir hon er mwyn eich galluogi i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau, a bydd y rhain yn cael eu cofnodi. Mae modd i chi gyfleu eich barn yn ysgrifenedig hefyd.

Isod, nodir manylion y cyfarfodydd ymgynghori:

| Natur yr ymgynghoriad | Dyddiad/Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| Cyfarfod staff | 29/11/13 3.15pm | Ysgol Gwaun y Nant |
| Cyfarfod y Corff Llywodraethu | 29/11/13 4.15pm | Ysgol Gwaun y Nant |
| Sesiwn galw heibio | 12/12/13 3-6.00pm | Ysgol Gwaun y Nant |

## 1.4 Y cyfnod ymgynghori

Bydd y cyfnod ymgynghori yn cychwyn ar 18 Tachwedd 2013 ac yn dod i ben ar 10 Ionawr 2014. Mae'ch safbwyntiau yn bwysig i ni, felly a fyddech gystal â mynegi eich barn i ni am y cynnig trwy:

- Lenwi a dychwelyd y ffurflen ymateb amgaeedig i'r cyfeiriad a nodir ar waelod y ffurflen
- Anfon eich safbwyntiau mewn neges e-bost at barrywelshmediumexpansion@valeofglamorgan.gov.uk
- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.valeofglamorgan.gov.uk/barrywelshmediumexpansion

Neu, mae modd i chi gyflwyno'ch safbwyntiau yn ysgrifenedig i;

Ehangu darpariaeth Cyfrwng Cymraeg Y Barri
Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chorfforaethol
Cyngor Bro Morgannwg,
RHADBOST SWC2936
Y Barri CF63 4GZ





Mae modd i chi gyflwyno safbwyntiau o blaid neu yn erbyn y cynnig. Gan mai ymgynghoriad anffurfiol yw hwn, ni fydd yr ymatebion a wneir yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau statudol. Os hoffech wrthwynebu, bydd angen i chi wneud hynny yn ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol a amlinellir ym mhwynt adran 3 y ddogfen hon, Amserlen y Broses Statudol.

**Sylwer bod yn rhaid i'r holl sylwadau a anfonir yn ysgrifenedig neu mewn neges e-bost gynnwys eich enw llawn a'ch cyfeiriad post llawn.**

**Y dyddiad cau er mwyn cyflwyno ymatebion yw 10 Ionawr 2014. Ni fydd modd i'r Cyngor ystyried unrhyw ymatebion a wneir ar ôl y dyddiad hwn.**

## 2.0 Beth yw'r cynnig

Mae'r Cyngor yn cynnig cynyddu nifer y lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg yn Y Barri trwy gynyddu capasiti Ysgol Gwaun Y Nant o 210 i 420 o leoedd gan gychwyn ym mis Medi 2015. Bydd lle ar gael ar gyfer 60 o blant ym mhob grŵp oedran, mewn dau ddosbarth: ar hyn o bryd, ceir 30 lle. Bydd yr ysgol yn tyfu'n raddol wrth i'r dosbarth derbyn gynnwys 60 o blant bob blwyddyn. Bydd y cynnig hwn yn rheoli'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg yn Y Barri, er mwyn galluogi'r awdurdod i ddarparu lleoedd ysgol er mwyn bodloni anghenion plant yn yr ardal yn y dyfodol.

## 2.1 Cefndir

Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i fodloni galw rhieni am addysg Cyfrwng Cymraeg. Bu cynnydd arwyddocaol yn y galw am leoedd cyfrwng Cymraeg ar draws y Fro er 2009, ac fe arweiniodd hyn at agor dwy ysgol cyfrwng Cymraeg newydd ym mis Medi 2011 yn Llanilltud Fawr ac yn Y Barri.

Mae'r twf o ran y galw wedi parhau er 2011 ar draws y Fro, i'r fath raddau fel bod disgwyl y bydd prinder lleoedd derbyn yn Y Barri ym mis Medi 2014. Ar hyn o bryd, darparir addysg gynradd Cyfrwng Cymraeg mewn pedair ysgol yn Y Barri:

- **Ysgol St Curig,**
- **Ysgol St Baruc,**
- **Ysgol Nant Talwg**
- **Ysgol Gwaun y Nant**

Mae'r tabl canlynol yn dangos y sefyllfa yn yr ysgolion yn ardal Y Barri.

| Niferoedd Derbyn i Ysgolion | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | Rhif Derbyn* | Niferoedd Derbyn 2010 | Niferoedd Derbyn 2011 | Niferoedd Derbyn 2012 | Niferoedd Derbyn 2013 | Niferoedd Derbyn 2014** |
| **Ardal Y Barri** | | | | | | |
| St Baruc | 30 | 30 | 29 | 30 | 30 | 26 |
| St Curig | 60 | 60 | 59 | 60 | 60 | 63 |
| Gwaun y Nant | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 38 |
| Nant Talwg (agorwyd - Medi 2011) | 30 | amh | 21 | 38 | 30 | 31 |
| **Total Applications** | | 120 | 139 | 158 | 150 | 158 |
| **Total Places Available** | **120** | **120** | **150** | **150** | **150** | **150** |

*Nifer y lleoedd derbyn sydd ar gael **Plant a gofrestrwyd

Ar gyfer mis Medi 2013, mae'r tabl yn dangos bod 150 o geisiadau ar gyfer y 150 o leoedd derbyn a oedd ar gael yn Y Barri. Ar hyn o bryd, mae 158 o blant mewn dosbarthiadau meithrin cyfrwng Cymraeg, y gallent wneud cais am le derbyn yn 2014, gan arwain at brinder o wyth lle o fewn yr ysgolion sy'n bodoli eisoes.

Disgwylir i'r twf yn y galw yn Y Barri barhau yn unol â'r raddfa bresennol am gryn amser eto, a disgwylir y bydd prinder lleoedd yn 2015 ac ar ôl hynny. Bydd y cynnig yn ymateb i'r twf yn y galw ymhlith rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg yn Y Barri.

## 2.2 Gwybodaeth am ddisgyblion ac ysgolion

| Gwybodaeth gyffredinol am ysgolion | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | Math o ysgol | Rhif Derbyn | Capasiti | Nifer ar y Gofrestr 1/13 CYBLD* | Ystod Oedran | Lleoedd meithrin rhan-amser cyfatebol |
| **Ardal Y Barri** | | | | | | |
| St Baruc | Cynradd Cymunedol | 30 | 210 | 202 | 4-11 | 38 |
| St Curig | Cynradd Cymunedol | 60 | 420 | 350 | 4-11 | 114 |
| Gwaun y Nant | Cynradd Cymunedol | 30 | 210 | 169 | 4-11 | 60 |
| Nant Talwg (agorwyd - Medi 2011) | Cynradd Cymunedol | 30 | 60** | 56 | 4-6*** | 32 |

*Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)
**Capasiti o 60 ar ddyddiad CYBLD gyda dosbarth derbyn a dosbarth blwyddyn 1 yn yr ysgol
***Mae'r ysgol yn cynnwys ystod oedran Meithrin i flwyddyn 1 ar ddyddiad CYBLD





## Gwybodaeth am y Niferoedd yng Nghofrestr yr Ysgol Gyfan

| Ysgol | Capasiti yr Ysgol Ionawr 2013 CYBLD* | Nifer ar y Gofrestr Ionawr 2013 CYBLD* | Nifer ar y Gofrestr Ionawr 2012 CYBLD* | Nifer ar y Gofrestr Ionawr 2011 CYBLD* | Nifer ar y Gofrestr Ionawr 2010 CYBLD* | Nifer ar y Gofrestr Ionawr 2009 CYBLD* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ardal Y Barri** | | | | | | |
| St Baruc | 210 | 202 | 208 | 208 | 209 | 209 |
| St Curig | 420 | 350 | 348 | 356 | 348 | 347 |
| Gwaun y Nant | 210 | 169 | 173 | 168 | 164 | 148 |
| Nant Talwg (agorwyd - Medi 2011) | 60 | 56 | 18 | amh | amh | amh |

*Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

## Nifer yng Nghofrestr yr Ysgol Fesul Grwpiau Blwyddyn ym mis Ionawr CYBLD* 2013

| Ysgol | Nifer derbyn | DER | BL1 | BL2 | BL3 | BL4 | BL5 | BL6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ardal Y Barri** | | | | | | | | |
| St Baruc | 30 | 30 | 26 | 29 | 25 | 36 | 38 | 18 |
| St Curig | 60 | 59 | 57 | 56 | 51 | 53 | 34 | 40 |
| Gwaun y Nant | 30 | 30 | 26 | 26 | 21 | 18 | 32 | 16 |
| Nant Talwg (agorwyd - Medi 2011) | 30 | 36 | 20 | amh | amh | amh | amh | amh |

*Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)
Rheolir dosbarthiadau sy'n cynnwys mwy na'r nifer derbyn trwy gyfrwng grwpiau blwyddyn cymysg er mwyn sicrhau na fydd dosbarthiadau yn cynnwys mwy na 30 o blant





## Gwybodaeth am y Rhagolygon ar Gyfer Ysgolion

| Ysgol | Capasiti yr Ysgol* | Nifer ar y Gofrestr ar hyn o bryd Ionawr 2013 CYBLD* | Nifer ar y Gofrestr ar hyn o bryd Ionawr 2014 CYBLD* | Nifer ar y Gofrestr ar hyn o bryd Ionawr 2015 CYBLD* | Nifer ar y Gofrestr ar hyn o bryd Ionawr 2016 CYBLD* | Nifer ar y Gofrestr ar hyn o bryd Ionawr 2017 CYBLD* | Nifer ar y Gofrestr ar hyn o bryd Ionawr 2018 CYBLD* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ardal Y Barri** | | | | | | | |
| St Baruc | 210 | 202 | 210 | 200 | 191 | 194 | 193 |
| St Curig | 420 | 350 | 358 | 384 | 381 | 380 | 379 |
| Gwaun y Nant | 210 | 169 | 179 | 181 | 187 | 191 | 191 |
| Nant Talwg (agorwyd - Medi 2011) | 60 | 56 | 86 | 117 | 147 | 177 | 207 |

Capasiti yr ysgol ym mis Ionawr 2013, a fydd yn codi i 210 ym mis Medi 2017
*Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

Er bod capasiti digonol ar y cyfan o fewn ysgolion Cyfrwng Cymraeg Y Barri, mae'r twf rhagamcanol yn nifer y disgyblion a ddangosir uchod yn codi wrth i niferoedd derbyn mwy ddisodli dosbarthiadau blwyddyn 6 llai sy'n symud ymlaen i'r ysgol uwchradd. Mae angen ehangu'r sector cyfrwng Cymraeg er mwyn cynnig lle i'r dosbarthiadau mwy hyn.

## 2.3 Y cynnig er mwyn rhoi sylw i'r diffyg yn nifer y lleoedd mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg yn Y Barri

### DEWISIADAU A YSTYRIWYD

Ystyriwyd y dewisiadau canlynol cyn i'r Cabinet benderfynu ymgynghori am y dewis a ffafrir, sef ehangu Ysgol Gwaun y Nant.

### Peidio newid y sefyllfa bresennol – cynnal yr ysgolion yn eu ffurf presennol

Nid yw hwn yn ddewis hyfyw gan bod y galw gan rieni am leoedd cyfrwng Cymraeg yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd; ni fyddai modd i'r awdurdod gyflawni ei ddyletswydd statudol o fodloni dewis rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg heb gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael.

### Ehangu'r ysgolion presennol

Ystyriwyd y posibilrwydd o ehangu'r ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n bodoli eisoes, Ysgol Nant Talwg, Ysgol St Baruc ac Ysgol St Curig. Nid oes modd gwneud hyn gan nad yw safleoedd presennol yr ysgolion yn ddigon mawr er mwyn bodloni'r gofynion addysgol presennol ar gyfer ysgol mwy o faint.

### Ehangu Ysgol Gwaun Y Nant gan greu ysgol sy'n cynnwys 420 lle

Ar hyn o bryd, mae Ysgol Gwaun y Nant ac ysgol Gynradd Oakfield wedi'u lleoli ar safle cyn ysgol gynradd dau ddosbarth (420 lle) a rannwyd yn 2000.

Y tu ôl i safle Ysgol Gwaun y Nant ac ysgol Gynradd Oakfield, ceir darn o dir oddeutu 1¾ erw, nad yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, ac y mae'r Cyngor yn berchen arno.

Byddai modd cynnwys y tir hwn yn safle'r ysgol er mwyn darparu caeau chwarae ychwanegol er mwyn bodloni anghenion ysgol a fyddai'n cael ei hehangu.

Yn dilyn llifogydd ym mis Gorffennaf 2007, adnewyddwyd tu mewn y ddwy ysgol yn llawn ac aseswyd eu bod mewn cyflwr da. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn cynnal cynllun lliniaru llifogydd yn yr ardal er mwyn lleihau risg llifogydd yn yr ardal yn y dyfodol.

Mae Ysgol Gwaun y Nant yn ddigon mawr ar gyfer 210 o ddisgyblion mewn dosbarthiadau o 30 o blant, a dosbarth meithrin. Y maint mwyaf manteisiol er mwyn ehangu Ysgol Gwaun y Nant yw 30 o blant fesul grŵp blwyddyn (trefniant derbyn un dosbarth) er mwyn bodloni'r cyfyngiadau statudol ac a argymhellir ynghylch maint dosbarthiadau. Byddai hyn yn cynyddu capasiti yr ysgol i 420 o ddisgyblion.





Ystyriwyd y cam o gynnig estyniad derbyn un dosbarth i Ysgol Gwaun y Nant, gan ailfodelu'r ysgol bresennol. Fodd bynnag, mae'r gegin, y cyfleusterau bwyta a'r neuadd oll wedi'u lleoli mewn man canolog rhwng Ysgol Gwaun y Nant ac ysgol Gynradd Oakfield, a bydd angen eu hymestyn er mwyn ymateb i'r cynnydd yn nifer y disgyblion. Mae'r astudiaeth ddichonoldeb yn dangos y bydd hyn yn anodd ac yn ddrud yn y lleoliad presennol, ac y bydd gofyn adeiladu cyfleusterau newydd gan ddyblygu'r ddarpariaeth yn yr ysgolion. Yn ogystal, byddai angen coridor cysylltu ar gyfer estyniad i'r adeilad presennol, a fyddai'n arwain at lif gwael disgyblion trwy'r ysgol, neu adeiladu bloc ar wahân, a fyddai'n arwain at faterion yn ymwneud â diogelwch disgyblion wrth iddynt symud rhwng y ddau floc.

Os byddai estyniad yn cael ei adeiladu ar gyfer Ysgol Gwaun y Nant, ni fyddai'n darparu ysgol sy'n cynnig yr addysg a'r dysgu gorau ag y bo modd i blant Y Barri. Felly, nid hwn yw'r dewis a ffafrir.

Y dewis a ffafrir yw adeiladu ysgol newydd mynediad un dosbarth (210 lle) er mwyn cynnig lle i Ysgol Gynradd Oakfield ar y safle presennol, gan ailfodelu adeilad presennol Ysgol Gwaun y Nant er mwyn cynnig lle i 420 o blant a meithrinfa mwy o faint. Byddai'r gwaith ailfodelu yn creu un uned feithrin a blynyddoedd cynnar mwy, gan waredu'r gwahanfur yn y neuadd, ehangu'r cyfleusterau ar gyfer y staff a chreu safleoedd tramwy newydd er mwyn gwella safleoedd addysgu. Bydd hyn yn golygu y bydd angen cael gwared ar y waliau presennol ac adeiladu waliau newydd o fewn yr adeilad presennol.

Byddai'r dewis hwn yn gwella'r amgylcheddau dysgu ac addysgu ar gyfer y ddwy ysgol mewn ffordd sylweddol, gan ddarparu dwy ysgol sy'n bodloni anghenion addysgol yr unfed ganrif ar hugain.

O'i gymeradwyo, rhagwelir y byddai modd i'r gwaith adeiladu gychwyn yn ysgol Gynradd newydd Oakfield ym mis Tachwedd 2014, er mwyn galluogi'r ysgol i symud i'w safle newydd ym mis Medi 2015. Ar ôl cwblhau'r adeilad newydd, byddai gwaith ailfodelu yn cael ei wneud yn adeilad yr ysgol bresennol er mwyn cynyddu'r capasiti fesul tipyn yn Ysgol Gwaun y Nant.

Yn y cyfamser, er mwyn bodloni'r galw ar gyfer plant oedran derbyn Cyfrwng Cymraeg yn 2014, cynigiwn ddefnyddio un ystafell ddosbarth wag yn Ysgol Gynradd Oakfield er mwyn cynnig lle i blant ychwanegol Gwaun y Nant.

Cost amcangyfrifedig y gwaith o adeiladu adeilad newydd, ailfodelu'r adeilad presennol ac ymestyn y caeau chwarae yw £3,700,000. Os bydd yn cael ei gymeradwyo, mae cyllid cyfalaf ar gyfer y prosiect hwn ar gael trwy gyfrwng rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, y mae 50% ohono yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

## 2.4 Ysgolion y gallent gael eu heffeithio gan y cynigion

Mae'r ehangu hwn yn bodloni'r twf am y galw mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn poblogaeth bresennol y plant yn Y Barri, yn ogystal â'r galw ychwanegol sy'n deillio o ddatblygiadau tai newydd a fwriedir ar gyfer yr ardal. Bwriedir adeiladu 3107 o dai ychwanegol yn ardal Y Barri, a disgwylir y bydd hyn yn arwain at 865 o blant cynradd ychwanegol y bydd angen lle arnynt mewn ysgol.

Bernir mai bach iawn yw effaith y twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar ysgolion cyfrwng Saesneg, ac o ystyried y ffaith bod clwstwr ardal Y Barri yn cynnwys 15 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, mae'r effaith yn annhebygol o fod yn arwyddocaol ar lefel ysgolion unigol. Bydd gofyn am leoedd ysgol cyfrwng Saesneg er mwyn bodloni'r galw sy'n deillio o'r datblygiadau tai a fwriedir yn yr ardal. Mae'r cynnydd parhaus o ran y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn Y Barri yn golygu ei bod yn annhebygol y bydd y cynnig yn cael effaith arwyddocaol ar yr ysgolion hyn.

## 2.5 Trefniadau derbyn

Y Cyngor yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol; ni fydd y trefniadau derbyn ar gyfer yr ysgol yn newid o ganlyniad i'r cynnig hwn. O ganlyniad i'r cynnydd graddol mewn capasiti yn yr ysgol, ni fwriadir gwneud unrhyw newidiadau ar hyn o bryd i ddalgylch yr ysgol. Adolygir hyn yn y dyfodol er mwyn adlewyrchu'r galw cynyddol am addysg Cyfrwng Cymraeg yn Y Barri.

## 2.6 Trefniadau teithio ar gyfer dysgwyr

Mae trefniadau teithio i Ddysgwyr Cymru Gyfan yn darparu cymhwystra i gludiant i'r ysgol os bydd disgybl oedran cynradd yn byw mwy na dwy filltir o'u hysgol agosaf neu'r ysgol ddynodedig ar gyfer y dalgylch. Ni chaiff trefniadau cludiant i'r ysgol, cymhwystra na hygyrchedd eu heffeithio gan y cynnig hwn. Darparir cludiant i'r ysgol o hyd o Gwenfô i Ysgol Gwaun y Nant dan y cynnig hwn.

## 2.7 Materion staffio

Bydd lefelau staffio yn cynyddu o ganlyniad i'r cynnig i fodloni'r galw wrth i ragor o blant fynychu'r ysgol.







## 2.8 Materion addysgol

Bernir y bydd y cam arfaethedig o ehangu Ysgol Gwaun y Nant yn cynnig y manteision addysgol canlynol i blant sy'n mynychu'r ysgol:

- Bydd ehangu Gwaun Y Nant yn arwain at dwf yn nifer y disgyblion ac yn nifer y staff, a fydd yn caniatáu mwy o arbenigedd ymhlith yr athrawon, gan arwain at arweinyddiaeth ddosbarthol fwy effeithiol.
- Mae'n cynnig dewis ychwanegol i rieni fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg
- Nifer uwch o leoedd meithrin
- Mae'n debyg y caiff plant meithrin aros yn yr ysgol heb orfod apelio er mwyn cael mynediad i'r dosbarth derbyn
- Mae'n cynnig dewis go iawn o ran addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg i gymuned Gibbonsdown
- Mae trefniant derbyn dau ddosbarth yn caniatáu trefniant addysgu fel tîm
- Mwy o gyfleoedd datblygiad staff ar hyd y llwybr gyrfa a ddewiswyd ganddynt

Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd y bydd yn rhaid i'r ysgol a'r Cyngor reoli nifer o anfanteision neu risgiau posibl er mwyn osgoi unrhyw effaith niweidiol:

- Gallai ethos ysgol fach gael ei golli
- Mae ysgol fwy yn gofyn am fwy o staff, a'r risg na fydd modd recriwtio staff addysgu a staff cymorth o'r safon cywir, sy'n meddu ar sgiliau ieithyddol priodol
- Gallai dysgu yn yr awyr agored gael ei amharu yn ystod y broses ailstrwythuro
- Gallai cyfanswm y traffig gan staff a rhieni/gofalwyr fod yn uwch.

Adroddiad Estyn:- http://www.estyn.gov.uk/english/provider/6732179

## 2.9 Asesiad Effaith ar y Gymuned

Mae angen ehangu Ysgol Gwaun y Nant er mwyn bodloni'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg gan rieni ar draws Y Barri, gan gynnwys yn yr ardal leol gerllaw Ysgol Gwaun y Nant. Os na fydd yr ysgol yn cael ei hehangu er mwyn bodloni'r galw hwn, ni \fyddai modd bodloni dewis rhieni yn lleol. Byddai'n rhaid cludo plant y tu allan i'r ardal er mwyn iddynt gael addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â dymuniadau eu rhieni.

Pryd bynnag y bo modd, byddwn yn ceisio osgoi unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol o ganlyniad i'r cam o ehangu ysgolion. Cydnabyddir, fodd bynnag, y gallai cynyddu maint yr ysgol gynyddu llif y traffig i'r ysgol hefyd. Bydd amser cychwyn a gorffen Ysgol Gwaun y Nant ac Ysgol Gynradd Oakfield yn wahanol er mwyn lleihau'r tagfeydd traffig yn ystod adegau prysur a bydd y ddwy ysgol yn paratoi cynlluniau er mwyn hyrwyddo dewisiadau amgen i deithio yn yr ysgol mewn car. Bydd angen cymeradwyaeth gynllunio ar gyfer yr

adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Oakfield (proses ar wahân i'r ymgynghoriad addysg hwn), a fydd yn sicrhau bod traffig i safle'r ysgol yn cael ei ystyried yn llawn.

Ar hyn o bryd, ni ddefnyddir Ysgol Gwaun y Nant gan y gymuned ehangach. Bydd gwella dyluniad yr ysgol er mwyn caniatáu defnydd cymunedol yn cael ei ystyried wrth ddatblygu'r dyluniad.

## 2.10 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cychwynnol am y cynnig hwn yn dod i'r casgliad na fyddai ehangu Ysgol Gwaun y Nant yn cael effaith niweidiol ar unrhyw grŵp penodol mewn cymdeithas. Adolygir yr asesiad hwn yn dilyn yr ymgynghoriad er mwyn cynnwys y dyluniad ar gyfer unrhyw adeilad newydd a gwaith i adnewyddu / addasu y safle presennol.

## 2.11 Asesiad am yr Iaith Gymraeg

Mae'r galw ymhlith rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg wedi bod yn tyfu ar draws ardal gyfan Bro Morgannwg er 2007. Gwelwyd y cynnydd cryfaf yn y galw yn ardal Y Barri. Ar hyn o bryd, mae dosbarthiadau derbyn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg Y Barri yn llawn, a rhagwelir y bydd nifer uwch o geisiadau ym mis Medi 2014 ac ar ôl hynny. Ar hyn o bryd, nid oes digon o leoedd mewn dosbarthiadau derbyn er mwyn bodloni'r galw ymhlith nifer y plant y mae angen lle arnynt. Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod digon o leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg er mwyn bodloni'r galw a ragwelir.

Bydd ehangu Ysgol Gwaun y Nant yn darparu 210 o leoedd cyfrwng Cymraeg cynradd ychwanegol yn Y Barri, gan ddarparu 30 o leoedd ychwanegol mewn dosbarthiadau derbyn o fis Medi 2014. Bydd hyn yn bodloni'r galw a ragwelir am addysg cyfrwng Cymraeg yn Y Barri am gyfnod go faith.

Bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg yn Y Barri.










## 3.0 Amserlen y broses statudol

Er mwyn cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gwaun y Nant, rhaid i'r Cyngor ddilyn y broses a nodir yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2013.

| Proses Statudol | Amserlen |
|---|---|
| Cyhoeddi dogfen ymgynghori i bartïon y mae ganddynt ddiddordeb ac ymgyngoreion rhagnodedig | 18 Tachwedd 2013 |
| Y dyddiad cau er mwyn cyflwyno safbwyntiau am y cynnig | 10 Ionawr 2014 |
| Cyflwyno'r adroddiad ymgynghori i'r Cabinet a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor | 24 Chwefror 2014 |
| Cyhoeddi hysbysiad statudol am 28 diwrnod, ac yn ystod y cyfnod hwn, gwahoddir gwrthwynebiadau ysgrifenedig | 3 Mawrth tan 31 Mawrth 2014 |
| Penderfyniad gan gabinet y Cyngor | 28 Ebrill 2014 |
| Adroddiad gwrthwynebu yn cael ei gyhoeddi cyn pen saith diwrnod o'r penderfyniad ar wefan y Cyngor a hysbysiad o benderfyniad y cabinet. | 2 Mai 2014 |
| Agor yr ysgol wedi'i hehangu | Medi 2015 |

Nid oes gofyn i'r Cyngor ddilyn y broses uchod er mwyn darparu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Oakfield er mwyn caniatáu ehangu Ysgol Gwaun y Nant, gan na fydd maint yr ysgol yn newid a bydd yr ysgol yn parhau i fod ar yr un safle.

## 3.1 Cyfnod ymgynghori

Bydd y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig hwn yn cychwyn ar 18 Tachwedd 2013 a bydd yn dod i ben ar 10 Ionawr 2014. Gweler adran 1.1 am fanylion pellach ynghylch sut i ymateb, mynychu sesiynau galw heibio a chyfleu eich safbwyntiau.

## 3.2 Ystyried eich safbwyntiau

Cyn pen 13 wythnos o 10 Ionawr 2014, cyhoeddir adroddiad ymgynghori ar wefan y Cyngor. Bydd modd gofyn am gopïau caled o'r adroddiad hefyd. Bydd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion, gan ddarparu ymateb y Cyngor i'r materion hyn. Yn ogystal, bydd yr adroddiad yn cynnwys safbwynt Estyn am y cynnig.

Bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad ymgynghori, gan benderfynu a ddylid symud ymlaen gyda'r cynnig neu beidio.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi hysbysiad statudol.

## 3.3 Hysbysiad statudol

Cyhoeddir yr hysbysiad statudol ar wefan y Cyngor a bydd yn cael ei osod yn yr ysgol a enwir ac mewn ysgolion cyfagos yn yr ardal leol. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau o staff (gall yr ysgol barthu'r hysbysiad mewn neges e-bost hefyd). Bydd yr hysbysiad yn nodi manylion y cynnig, gan ofyn i unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny mewn ffordd ysgrifenedig cyn pen cyfnod o 28 diwrnod.

## 3.4 Gwneud penderfyniad am y cynnig

Bydd y Cabinet yn gwneud penderfyniad am y cynnig. Gallai'r Cabinet benderfynu cymeradwyo, gwrthod neu gymeradwyo'r cynnig gydag addasiadau. Trwy wneud hynny, bydd y Cabinet yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol a gafwyd.

## 3.5 Hysbysiad o'r penderfyniad

Ar ôl gwneud penderfyniad am y cynigion, hysbysir yr holl bartïon y mae ganddynt ddiddordeb, a byddant yn cael gwybod bod y penderfyniad ar gael, ac fe'i cyhoeddir mewn ffordd electronig ar wefan y Cyngor.





## Cwestiynau cyffredin

### Beth fyddai'r cynnig yn ei olygu i blant sy'n mynychu Ysgol Gwaun y Nant ac Ysgol Gynradd Oakfield ar hyn o bryd?

Byddai plant sy'n mynychu'r ysgol hyn ar hyn o bryd yn aros yn eu hysgol.

### Pryd fyddai'r gwaith adeiladu yn cychwyn?

Os caiff y cynnig hwn ei gymeradwyo, y nod yw cychwyn ar y gwaith adeiladu ar adeilad newydd Oakfield ym mis Tachwedd 2014 a'i gwblhau ym mis Gorffennaf 2015. Bydd yr adeilad newydd yn agor ym mis Medi 2015. Cyflawnir gwaith addasu mewnol i Ysgol Gwaun y Nant ac adeilad ysgol Gynradd Oakfield yn ystod gwyliau'r haf 2015, a bydd yn parhau yn ystod y tymor ysgol mewn safleoedd na fydd eu hangen ar Ysgol Gwaun y Nant eto.

### A fyddai'r gwaith adeiladu yn digwydd tra bod y plant ar y safle?

Byddai, ni fydd modd cwblhau'r gwaith adeiladu yn ystod y gwyliau ysgol, felly bydd yn rhaid gwneud gwaith yn ystod y tymor ysgol. Mae gan y Cyngor brofiad helaeth dros nifer o flynyddoedd o reoli prosiectau adeiladu mewn ffordd lwyddiannus ar safleoedd ysgolion sydd ar agor ar yr un pryd. Mae iechyd a diogelwch disgyblion, rhieni, staff ac ymwelwyr i'r ysgolion yn hollbwysig. Bydd safle gwaith y contractwyr yn cael ei neilltuo â ffens o weddill safle'r ysgol er mwyn atal mynediad ac ni chaniateir i gyflenwadau gael eu dosbarthu i'r safle pan fo'r ysgol yn cychwyn neu'n gorffen. Bydd y tîm dylunio a'r ysgolion yn cydweithio mewn ffordd agos iawn cyn ac yn ystod y gwaith adeiladu, er mwyn sicrhau bod y gwaith adeiladu yn cael ei wneud mewn ffordd ddiogel.

### A fyddai addysg plant yn Ysgol Gwaun y Nant neu yn Ysgol Gynradd Oakfield yn cael ei amharu?

Bydd y cwricwlwm llawn yn cael ei ddysgu yn y ddwy ysgol o hyd wrth i'r gwaith adeiladu fynd yn ei flaen. Bydd Ysgol Gynradd Oakfield yn symud i'w hadeilad newydd yn ystod gwyliau'r haf er mwyn sicrhau cyn lleied o amhariad ag y bo modd ar addysg y plant. Bydd gwaith addasu mewnol i ehangu Ysgol Gwaun y Nant yn cael ei raglennu er mwyn osgoi amhariad ar addysg y plant.

### A fyddai unrhyw newidiadau i'r wisg ysgol yn y naill ysgol neu'r llall?

Ni fydd unrhyw newid o ran y wisg ysgol yn deillio o'r cynnig hwn.

### A fyddai unrhyw newidiadau i'r trefniadau er mwyn cludo plant i'r ysgol?

Ni fydd y cynnig hwn yn newid ein polisi o gludo plant i'r ysgol. Bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol i'r holl blant sy'n byw o fewn y dalgylch a dros dwy filltir o Ysgol Gwaun y Nant, beth bynnag fo canlyniad yr ymgynghoriad hwn.












# Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

## Cam Arfaethedig o Ehangu Ysgol Gwaun y Nant

**Rhowch eich enw a'ch cyfeiriad. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn sicrhau bod atebwyr yn cael gwybod y canlyniadau a'r camau nesaf yn y broses ymgynghori. Bydd hefyd yn rhoi gwell amcan o gyrhaeddiad yr ymgynghoriad.**

**Enw** ______________________

**Cyfeiriad** ______________________

______________________

**Côd Post** ______________________

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Anfonwch y ffurflen hon yn ôl i: Ysgol Uwchradd Gydaddysgol Y Barri,
Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid, Cyngor Bro Morgannwg, RHADBOST SWC2936 Y Barri CF63 4GZ



# Cam Arfaethedig o Ehangu Ysgol Gwaun y Nant

Ymgynghoriad i ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardal Y Barri trwy gynyddu capasiti Ysgol Gwaun y Nant o ysgol sy'n cynnwys 210 lle i ysgol sy'n cynnwys 420 lle, fesul tipyn o fis Medi 2015 ymlaen.

**Eich Sylwadau**

**Ticiwch y bocs os hoffech gael eich hysbysu o'r ffaith bod yr adroddiad ymgynghori yn cael ei gyhoeddi** ◯

**Sylwer:** Mae'r dudalen hon at ddibenion ymgynghori yn unig. Ystyrir yr holl sylwadau o fewn y broses ymgynghori, fodd bynnag, ni roddir ymatebion unigol.

A fyddech gystal â dychwelyd y ffurflen hon at:
Addysg Cyfrwng Cymraeg yn Y Barri,
Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chorfforaethol,
Cyngor Bro Morgannwg, RHADPOST SWC2936, Y Barri CF63 4GZ

Neu, mae modd i chi lenwi fersiwn ar-lein trwy droi at
**www.valeofglamorgan.gov.uk/barrywelshmediumexpansion**

Neu mae modd i chi anfon eich safbwyntiau mewn neges e-bost at
**barrywelshmediumexpansion@valeofglamorgan.gov.uk**